# Cyngor Sir Penfro

**Cais Am Gymeradwyo Safle Fel Lleoliad Ar Gyfer Priodasau Yn Unol Ag Adran 26(1) (Bb) O Ddeddf Priodas 1994, Y Ddeddf Priodasau (Cwplau O'r Un Rhyw) 2013 A Phartneriaethau Sifil Yn Unol Ag Adran 6 (3a)(A) O Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004.**

Mae'n rhaid i berchennog neu un o ymddiriedolwyr y safle wneud y cais hwn. Os yw'n llwyddo, bydd y gymeradwyaeth yn perthyn i'r ymgeisydd. Wedi ei gwblhau, dylid ei anfon ymlaen at y **Rheolwr Cofrestru, Swyddfa Gofrestru Sir Benfro drwy e-bost at** ceremonies @pembrokeshire.gov.uk ynghyd â'r ffi briodol (gweler Atodiad A), a ellir ei dalu drwy ein ffonio ar 01437 775826 a dyfynnu cyfeirnod 'AP - cais am leoliad newydd'

**1.** Rwyf yn gwneud cais am gymeradwyo'r safle sydd wedi ei enwi yn eitem 2 tros y dudalen ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil.

**2.** Rwyf yn deall-

(a) bydd y cyngor yn rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r cais ar wefan Sir-Benfro.gov am dair wythnos ar gyfer gwrthwynebu

(b) bydd y safle yn cael ei archwilio i weld a yw'n addas cyn rhoi cymeradwyaeth ac, os yw'r cais hwn yn llwyddiannus, gall fod yn destun archwiliad dilynol heb rybudd;

(c) bydd y gymeradwyaeth, os rhoddir cymeradwyaeth, am gyfnod o dair blynedd, pryd y gellid ei dirymu, a,

(d) bod rhaid i Gyngor Sir Penfro fod yn fodlon bod rhagofalon tân a darpariaethau ar gyfer iechyd a diogelwch ar waith.

**3.** Rwyf yn datgan-

(a) fy mod wedi darllen a deall yr wybodaeth sydd ar y ffurflen hon ac yn Atodiadau A, B ac C;

(b) nad yw'r adeilad yn swyddfa gofrestru nac yn safle crefyddol; a,

(c) fy mod wedi holi'r awdurdod cynllunio ynglŷn ag a oes angen caniatâd cynllunio ac atodaf dystiolaeth ei fod yn fodlon y gellir defnyddio'r safle ar gyfer priodasau neu bartneriaethau sifil.

**4.** Rwyf yn datgan ymhellach, os rhoddir cymeradwyaeth-

(a) y bydd y safle ar gael yn rheolaidd i'w ddefnyddio gan y cyhoedd ar gyfer un ai gweinyddu priodasau neu gofrestru partneriaethau sifil; ac,

(b) y byddaf yn cydymffurfio â'r amodau safonol (Atodiad A) ac unrhyw amodau lleol sydd ynghlwm â rhoi'r gymeradwyaeth.

| Manylion y Safle – Cwblhewch BOB adran | | |
|---|---|---|
| Enw'r safle | | |
| Cyfeiriad y safle | | |
| Rhif ffôn cyswllt (rhif cyhoeddus) | | |
| Cyfeiriad gwefan | | |
| Disgrifiwch natur y safle (e.e. gwesty, plasty) ac unrhyw ddefnydd arall a wneir o'r safle'n rheolaidd. | | |
| Rhestrwch yr ystafelloedd a gaiff eu defnyddio ar gyfer seremonïau ynghyd ag uchafswm y bobl a ganiateir (gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen) | Ystafelloedd | Nifer y bobl a ganiateir |
| Amgaeaf gynllun lle mae'r ystafelloedd uchod wedi'u amlygu ynghyd â'r safleoedd arfaethedig ar gyfer seremonïau yn yr awyr agored a ffiniau'r tir (rhaid darparu cynllun cyn y gellir rhoi trwydded) | | Amgaeedig / Heb eu hamgau<br><br>**A yw'r cynlluniau wedi'u hatodi?** |
| A oes gan y safle drwydded ar hyn o bryd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a allai fod yn berthnasol i'r cais hwn (e.e. ar gyfer darparu adloniant wedi'i reoleiddio). (Rhaid darparu copi cyn y gellir rhoi trwydded) | | Oes / Nag oes<br><br>**A oes copi wedi'i atodi?** |
| Dyddiad yr asesiad risg tân diwethaf. (Rhaid darparu copi cyn y gellir rhoi trwydded) | | **Dyddiad:**<br>**A oes copi wedi'i atodi?** |
| Rwyf wedi ymgynghori â'r awdurdod cynllunio perthnasol ac maent yn fodlon y gellir defnyddio'r safle hwn ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil. Atodaf dystiolaeth (ceisiadau cyntaf yn unig). | | Do / Naddo<br><br>**A oes tystiolaeth wedi'i atodi?** |

| Manylion yr Ymgeisydd | |
|---|---|
| Enw llawn | |
| Cyfeiriad preifat * | |
| Buddiant yn y safle | |
| Cyfeiriad cyswllt (os yn wahanol i'r uchod) | |

| | |
|---|---|
| Rhif ffôn cyswllt | |
| Cyfeiriad e-bost cyswllt | |
| *Os gwneir y cais gan gwmni cyfyngedig rhowch gyfeiriad y swyddfa gofrestredig a lle y bo’n wahanol, nodwch hefyd brif gyfeiriad masnachu’r cwmni. | |

**Llofnod yr ymgeisydd:** …………………………………**Dyddiad:** ……………………………

Dull talu: Cerdyn dros y ffôn/Cais am anfoneb (dilëwch fel y bo’n briodol)

**Cyngor Sir Penfro**

**Atodiad A**

**Nodiadau ynglŷn â'r gofynion cyn y gellir rhoi cymeradwyaeth**

Y ffi ar gyfer y cais hwn yw **£1,581** ar gyfer ceisiadau newydd a **£1,091** ar gyfer adnewyddiadau ac mae'n rhaid ei hanfon gyda'r cais at **y Rheolwr Cofrestru, Swyddfa Gofrestru, Archifdy Sir Benfro, Hwlffordd, SA61 2PE** gyda'r ffurflen gais. Os na fydd y cais yn llwyddiannus, rhoddir ad-daliad o £900 i geisiadau newydd a £700 ar gyfer adnewyddiadau.

Mae'n rhaid i berchennog neu ymddiriedolwyr y safle wneud y cais. Pan yw'n cael ei wneud ar ran cwmni cyfyngedig, dylid ei gyflwyno gyda datganiad ar wahân o enwau a chyfeiriadau pob cyfarwyddwr.

Mae'n rhaid i'r safle gyflawni'r gofynion safonol canlynol yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau:

**1.** Gan gyfeirio at ei brif ddefnydd, lleoliad, adeiladwaith a chyflwr, mae'n rhaid i'r safle fod, ym marn yr awdurdod, yn lleoliad gweddaidd ac urddasol ar gyfer y gweithrediadau.

**2.** Mae'n rhaid i'r safle fod ar gael yn rheolaidd i'r cyhoedd i'r diben o weinyddu priodasau neu gofrestru (ffurfio) partneriaethau sifil a rhaid darparu tystiolaeth foddhaol nad oes angen caniatâd cynllunio i ddefnyddio'r lleoliad ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil.

**3.** Mae'n rhaid i'r safle feddu ar ragofalon tân a allai fod yn ofynnol o fewn rheswm gan yr awdurdod, wedi ymgynghori â'r awdurdod tân/tân ac achub, ac unrhyw ddarpariaeth resymol arall ar gyfer iechyd a diogelwch pobl sy'n gweithio ar y safle neu'n ymweld â'r safle fel y gwêl yr awdurdod yn briodol.

**4.** Mae'n rhaid i'r safle beidio â bod -

a) yn safle crefyddol fel y mae wedi ei ddiffinio gan adran 6A(3C) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004*

b) yn swyddfa gofrestru

* Ystyr "safle crefyddol" yw safle a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf at ddibenion crefyddol, neu sydd wedi ei ddefnyddio i'r diben hwnnw ac nad yw wedi hynny wedi ei ddefnyddio'n unig neu'n bennaf at ddibenion eraill.

Wrth ystyried a yw'r safle yn addas i fod yn lleoliad, bydd yr awdurdod yn ystyried y canllawiau canlynol gan y Cofrestrydd Cyffredinol:

**1.** Bwriad deddfau sy'n ymwneud â "safle cymeradwy" yw caniatáu cynnal gweithrediadau yn rheolaidd mewn gwestai, plastai, neuaddau dinesig a

safleoedd tebyg (ac o ran partneriaethau sifil, safleoedd crefyddol) heb fod yn groes i natur ddefodol yr achlysur.

2. Ystyr y term 'safle' yn Rheoliad 2(1) yw ei fod yn **'safle wedi'i adeiladu ynghyd ag ardaloedd cysylltiedig yn yr awyr agored'**.

3. Ystyr safle wedi'i adeiladu yw strwythur parhaol â tho nad oes modd ei symud sy'n cynnwys o leiaf un ystafell neu unrhyw long neu gwch arall sydd wedi ei angori neu ei glymu'n barhaol. Ystyr "ardaloedd cysylltiedig yn yr awyr agored" yw "unrhyw ardaloedd o fewn ffiniau'r tir lle y mae'r safle wedi'i adeiladu'n rhan ohono, nad ydynt yn safleoedd wedi'u hadeiladu y gellir eu defnyddio ar y cyd â'r safle wedi'i adeiladu".

4. Ni fyddai unrhyw safle nad yw'r diffiniad hwn yn berthnasol iddo, megis dulliau cludiant, neu dir nad yw'n dir sy'n rhan o'r tir y mae'r safle wedi'i adeiladu'n rhan ohono, yn gymwys i'w gymeradwyo. Y gofyniad ar gyfer cymeradwyo yw bod safle wedi'i adeiladu, p'un a oes ardaloedd yn yr awyr agored cysylltiedig ai peidio.

5. Ar gyfer ceisiadau newydd i'w cymeradwyo fel safleoedd cymeradwy, rhaid cyflwyno cynllun o'r safle. Rhaid i'r cynllun ddangos y safle wedi'i adeiladu (a'r ystafell neu'r ystafelloedd o fewn y safle wedi'i adeiladu y ceisir cymeradwyaeth ar ei gyfer ac a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y gweithrediadau) ynghyd â'r lleoliadau arfaethedig ar gyfer gweithrediadau awyr agored a ffiniau'r tir y mae'r safle wedi'i adeiladu yn rhan ohono.

6. Mae'n rhaid trafod a chytuno ymlaen llaw ar leoliad arfaethedig y gweithrediadau awyr agored, ynghyd â threfniadau wrth gefn addas oherwydd tywydd garw.

7. Mae'n rhaid i leoliad y gweithrediadau fod yn adnabyddadwy drwy ddisgrifiad i'r cyhoedd a rhaid arddangos hysbysiad addas ym mhob un mynedfa gyhoeddus i'r safle (y safle wedi'i adeiladu a'r ardaloedd cysylltiedig yn yr awyr agored) yn nodi (i) bod y safle wedi'i gymeradwyo ar gyfer y gweithrediadau; (ii) disgrifiad o leoliad y gweithrediadau awyr agored; (iii) cyfarwyddiadau ar gyfer y gweithrediadau awyr agored.

8. Gellir defnyddio'r safle ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil a rhaid i'r safle fod ar gael yn rheolaidd i'r cyhoedd i'w ddefnyddio ar gyfer y ddau ddigwyddiad.

9. Ni fydd perchnogion na deiliaid safle yn gallu gwrthod cynnal priodasau na phartneriaethau sifil ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Yn unol â thelerau Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2007 (a ddaeth i rym ar 30 Ebrill 2007) mae'n anghyfreithlon i unrhyw un sy'n ymwneud â darparu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau i'r cyhoedd wahaniaethu yn erbyn rhywun sy'n ceisio defnyddio'r nwyddau, y cyfleusterau neu'r gwasanaethau hynny ar sail cyfeiriadedd rhywiol y person hwnnw. Os bydd deiliad y gymeradwyaeth yn methu â chaniatáu defnyddio safle ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil, neu sy'n darparu llety, gwasanaethau neu gyfleusterau ar gyfer y naill ac nid y llall, yna gellir dwyn achos cyfreithiol yn ei erbyn. Yn yr un modd â deddfwriaeth

cydraddoldeb arall, byddai'n rhaid i'r partïon dan sylw ddwyn yr achos hwn yn erbyn deiliad y gymeradwyaeth. Nid oes gan yr awdurdod lleol a roddodd y gymeradwyaeth unrhyw bwerau i weithredu nac ymyrryd, oni bai, wrth gwrs, mai'r awdurdod lleol yw deiliad y gymeradwyaeth.

**10.** Rhaid i'r safle fod ar gael yn rheolaidd i'w ddefnyddio gan y cyhoedd ar gyfer gweinyddu priodasau, neu ffurfio partneriaethau sifil. Bydd hyn yn atal tŷ preifat rhag cael ei gymeradwyo.

**11.** Rhaid gweinyddu priodasau / partneriaethau sifil ar safleoedd â drysau agored, yr hyn y mae'r Cofrestrydd Cyffredinol yn dehongli ei fod yn golygu nad oes dim i rwystro'r cyhoedd rhag cael mynediad i dystio i'r briodas/partneriaeth sifil a mynegi gwrthwynebiadau cyn neu yn ystod y seremoni.

**12.** Gellir dilyn priodasau / partneriaethau sifil ar safleoedd cymeradwy gan ddathliad, coffâd neu fendith o ddewis y pâr, cyn belled nad ydyw'n seremoni briodas grefyddol a'i fod ar wahân i'r seremoni sifil. Fodd bynnag, pe byddai bendith grefyddol yn dilyn seremonïau priodasau / partneriaethau sifil yn rheolaidd ar safle penodol, neu pe ystyrid hyn yn rhan o'r gwasanaeth a gynigir ar y safle, mae'n bosibl y byddai cysylltiad crefyddol a fyddai'n groes i'r gofynion ac a fyddai'n peri i'r awdurdod lleol ystyried dirymu'r gymeradwyaeth.

Mae'n rhaid i'r safle hefyd fodloni'r gofynion canlynol a osodir gan yr awdurdod:

(a) Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud ei hun yn hysbys i'r staff cofrestru wrth iddynt gyrraedd ar ddiwrnod y seremoni a bod ar gael am 30 munud cyn y seremoni a thrwy gydol y seremoni.

(b) Mae'n rhaid sicrhau bod ystafell neu ardal addas ar wahân ar gael i'r cofrestrydd siarad â chyplau cyn y seremoni.

(c) Mae'n rhaid bod cyfleusterau toiled digonol ar gael.

(d) Mae'n rhaid bod lle parcio ar wahân ar gael ar gyfer dau gar staff cofrestru ar y diwrnod.

(e) Mae'n rhaid cynnal seremoni'r briodas/parterniaeth sifil heb ymyrraeth gan unrhyw sŵn o rywle arall ar y safle.

(f) Lle bynnag y bo modd, mae'n rhaid darparu'n ddigonol ar gyfer mynediad i bobl anabl.

(g) Cyfrifoldeb y perchennog neu'r ymddiriedolwr yw clirio a chael gwared â chonffeti.

(h) Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau na fydd unrhyw fwyd na diod yn cael ei werthu na'i fwyta yn ystafell(oedd) y briodas/parterniaeth sifil awr cyn ac yn ystod y seremoni.

(i) Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr ystafell seremoni wedi'i pharatoi o leiaf 30 munud cyn y seremoni.

(j) Bydd y nifer fwyaf o bobl a ganiateir yn ystafell(oedd) y briodas/parterniaeth sifil yn cael ei bennu yn ystod yr archwiliad. Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i wrthod cynnal y briodas/bartneriaeth sifil os bydd mwy na'r nifer hwn o bobl yn bresennol. (Sylwer - mae nifer y bobl a ganiateir yn cynnwys yr holl bobl fydd yn cymryd rhan yn y seremoni e.e.
staff cofrestru, staff y lleoliad, ffotograffwyr, ac ati).

**Cyngor Sir Penfro**

**Atodiad B**

### Yr amodau i'w cysylltu â chymeradwyaeth

Rhaid i'r awdurdod gysylltu'r amodau safonol canlynol o Atodlen 2 i'r Rheoliadau i unrhyw gymeradwyaeth. Ystyr gweithrediadau yw gweinyddu priodas neu gofrestru partneriaeth sifil ac nid yw'n cyfeirio at unrhyw weithgareddau eraill ar y safle.

**1.** Rhaid i ddeiliad y gymeradwyaeth sicrhau bod unigolyn â chyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau hyn ar bob adeg ("yr unigolyn cyfrifol") a bod galwedigaeth yr unigolyn cyfrifol, ei brofiad, ei gyfrifoldeb mewn perthynas â'r safle, neu ffactorau eraill (ei "gymhwyster"), yn dangos ei fod mewn sefyllfa i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau hyn.

**2.** Bydd yr unigolyn cyfrifol neu, yn ei absenoldeb, dirprwy â chymwysterau priodol a benodir ganddo, ar gael ar y safle am o leiaf awr cyn pob un o'r gweithrediadau a thrwy gydol y gweithrediadau.

**3.** Rhaid i'r deiliad hysbysu'r awdurdod o'r canlynol –

(a) ei enw a'i gyfeiriad yn union ar ôl iddo ddod yn ddeiliad cymeradwyaeth o dan reoliad 7(2); ac,

(b) enw, cyfeiriad a chymhwyster yr unigolyn cyfrifol yn union ar ôl penodi unigolyn cyfrifol newydd.

**4.** Rhaid i'r deiliad hysbysu'r awdurdod ar unwaith am unrhyw newid i unrhyw un o'r canlynol-

(a) cynllun neu ffiniau'r tir y mae'r safle wedi'i adeiladu yn rhan ohono, fel y dangosir yn y cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais a gymeradwywyd, neu'r modd y defnyddir y safle;

(b) enw neu gyfeiriad post llawn y safle cymeradwy;

(c) disgrifiad o'r ystafell neu'r ystafelloedd lle mae'r gweithrediadau yn digwydd, neu ychwanegiad neu ddiwygiad i'r ardaloedd yn yr awyr agored y cytunwyd arnynt ymlaen llaw;

(d) enw neu gyfeiriad deiliad y gymeradwyaeth; ac,

(e) enw, cyfeiriad neu gymhwyster yr unigolyn cyfrifol.

**5.** Rhaid i'r safle cymeradwy fod ar gael i'w archwilio gan yr awdurdod ar bob adeg resymol.

**6.** Rhaid arddangos hysbysiad addas ymhob mynedfa gyhoeddus i'r safle am awr cyn y gweithrediadau a thrwy gydol y gweithrediadau, yn nodi bod y safle wedi'i gymeradwyo ar gyfer y gweithrediadau ac yn nodi ac yn rhoi cyfarwyddiadau i'r safle neu'r lleoliad awyr agored lle cynhelir y gweithrediadau.

**7.** Ni chaniateir gwerthu na bwyta unrhyw fwyd na diod yn yr ystafell lle cynhelir y gweithrediadau am awr cyn ac yn ystod y gweithrediadau hynny.

**8.** Mae'n rhaid cynnal pob gweithrediad mewn ystafell neu ardal awyr agored a nodwyd fel un i'w defnyddio at y diben hwnnw ar y cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais a gymeradwywyd.

**9.** Rhaid i'r ystafell neu'r ardal awyr agored lle cynhelir y gweithrediadau fod ar wahân i unrhyw weithgaredd arall ar y safle ar adeg y gweithrediadau.

**10.** Rhaid i drefniadau gweithrediadau a'u cynnwys fod wedi eu cymeradwyo ymlaen llaw gan gofrestrydd arolygol yr ardal, neu awdurdod cofrestru'r ardal lle mae'r safle cymeradwy wedi'i leoli.

**11.** (1) Ni chaiff unrhyw weithrediadau a gynhelir ar safle cymeradwy fel rhan o'r briodas neu'r bartneriaeth sifil fod yn grefyddol eu naws.

(2) Yn benodol, ni fydd y gweithrediadau yn:

(a) cynnwys dyfyniadau o wasanaeth priodas crefyddol awdurdodedig neu o destunau crefyddol cysegredig;

(b) cael ei arwain gan weinidog crefyddol neu arweinydd crefyddol arall;

(c) cynnwys defod grefyddol neu gyfres o ddefodau;

(c) cynnwys emynau neu fath arall o lafarganu crefyddol; neu'n

(e) cynnwys unrhyw ffurf o addoliad.

(3) Gall y gweithrediadau gynnwys deunydd darllen, caneuon neu gerddoriaeth sy'n cynnwys cyfeiriad damweiniol at dduw neu dduwdod mewn cyd-destun nad yw'n grefyddol yn y bôn.

(4) At y diben hwn, rhaid trin unrhyw ddeunydd a ddefnyddir fel cyflwyniad i'r gweithrediadau, mewn unrhyw gyfnod rhwng rhannau ohono, neu fel casgliad iddo, fel pe bai'n rhan o'r gweithrediadau.

**12.** Rhaid caniatáu mynediad heb dâl i'r cyhoedd i unrhyw weithrediadau mewn safle cymeradwy.

**13.** Rhaid i'r deiliad roi gwybod i bob cwpl bod yn rhaid iddynt wneud trefniadau gyda Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Penfro i fynychu eu seremoni. Trefnir dyddiadau ac amseroedd gyda'r Gwasanaeth Cofrestru ac ni ellir gwarantu dyddiadau ac amseroedd a ffefrir.

**14.** Mae unrhyw benderfyniad i ohirio neu ganslo'r seremoni yn ôl disgresiwn y staff cofrestru sy'n mynychu ar y diwrnod. Ni fydd Cyngor Sir Penfro yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu oedi o ganlyniad i:-

1) ganslo'r seremoni neu os yw'r cofrestriad yn cael ei atal rhag parhau oherwydd:-
    (a) byddai'n ddi-rym pe bai'n mynd yn ei flaen
    (b) byddai'n arwain at drosedd o dan Ddeddf Priodasau neu Ddeddf Partneriaeth Sifil neu unrhyw ddarpariaethau statudol eraill
    (c) byddai yn erbyn budd y cyhoedd
    (d) ymddygiad annerbyniol neu ymddygiad gwrthgymdeithasol unrhyw un a oedd yn rhan o'r seremoni neu unrhyw westai gwadd neu heb wahoddiad

(3) bod y cwpl yn hwyr neu heb gyrraedd

(4) methiant unrhyw staff cofrestru i fynychu oherwydd digwyddiad force majeure

(5) unrhyw gais gan y naill neu'r llall o'r cwpl i ohirio neu ganslo'r seremoni

(6) methiant y cwpl i dalu'r ffi ofynnol

(7) methiant y cwpl i gwblhau'r rhagofynion cyfreithiol priodol

(8) methiant neu esgeulustod y lleoliad trwyddedig (sylwch fod Cyngor Sir Penfro ond yn cymeradwyo lleoliad i'r graddau y caiff ei dderbyn fel lleoliad trwyddedig i gynnal seremonïau sifil ac nid yw Cyngor Sir Penfro yn derbyn unrhyw atebolrwydd os bydd unrhyw ddiffygion mewn lleoliad o'r fath)

**15.** Mae unrhyw ddathliadau yn yr awyr agored wedi'i gyfyngu i fisoedd Ebrill i Hydref ac ni fyddant yn cael eu cynnal oni bai bod Cyngor Sir Penfro a'r cwpl wedi cytuno ar hynny'n ysgrifenedig.

**16.** Lle cytunwyd ar seremoni yn yr awyr agored, yna mae'r Cofrestrydd ar ran Cyngor Sir Penfro yn cadw'r hawl i benderfynu lle cynhelir y seremoni pe bai tywydd garw. Y Cofrestrydd yw'r canolwr terfynol mewn materion o'r fath ac ni roddir ad-daliad os na chynhelir y seremoni yn y lleoliad y cytunwyd arno.

**17.** Caiff unrhyw gyfeiriad at gymeradwyaeth safle ar unrhyw arwydd neu hysbysiad, neu ar unrhyw ddeunydd ysgrifennu neu gyhoeddiad, neu o fewn unrhyw hysbyseb ddatgan bod yr awdurdod wedi cymeradwyo'r safle fel lleoliad ar gyfer priodas yn unol ag adran 26(1)(bb) o Ddeddf Priodas 1994, a ffurfio partneriaethau sifil o dan adran 6(3A)(a) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 ond ni chaiff ddatgan nac awgrymu bod yr awdurdod, y Cofrestrydd Cyffredinol nac unrhyw un o swyddogion neu weithwyr cyflogedig y naill neu'r llall yn argymell y safle neu ei gyfleusterau.

**18.** Os bydd enw'r safle cymeradwy yn newid ar ôl cyhoeddi'r dystysgrif ar gyfer priodas neu ddogfen y bartneriaeth sifil, ond cyn y gweithrediadau, bydd enw blaenorol y safle cymeradwy fel y'i cofnodwyd yn y dystysgrif ar gyfer priodas

neu ddogfen y bartneriaeth sifil yn parhau i fod yn ddilys tra bydd yn bodoli, i ddiben y gweithrediadau.

**Cyngor Sir Penfro**

**Atodiad C**

**Gwybodaeth ychwanegol**

Adnewyddu ac adfer

**1.** Gall y deiliad wneud cais i adnewyddu cymeradwyaeth pan fydd llai na deunaw mis ar ôl o'r gymeradwyaeth gyfredol. Bydd cais am adnewyddu a wneir yn ystod y cyfnod hwn yn ymestyn y gymeradwyaeth gyfredol hyd nes y bydd y cais wedi cael ei drin yn derfynol. Bydd adnewyddiad yn ymestyn o'r dyddiad y daw'r gymeradwyaeth gyfredol i ben.

**2.** Os na fydd y deiliad yn gwneud cais am adnewyddu cyn y dyddiad y daw i ben a bod y gymeradwyaeth yn dod i ben, caiff ei hadfer trwy gais am adnewyddu a wneir o fewn mis i'r dyddiad y daw i ben a bydd yn parhau nes bod y cais wedi cael ei drin.

Dirymu

**3.** Gall yr awdurdod ddirymu cymeradwyaeth os yw'n fodlon, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y deiliad, fod y defnydd a wneir o'r safle neu ei adeiladwaith wedi newid fel nad oes modd bodloni unrhyw un o'r gofynion safonol neu leol neu fod y deiliad wedi methu â chydymffurfio ag un neu ragor o'r amodau safonol neu leol sydd ynghlwm wrth y gymeradwyaeth.

**4.** Gall y Cofrestrydd Cyffredinol gyfarwyddo'r awdurdod i ddirymu cymeradwyaeth os, yn ei farn ef, ac ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y deiliad, y bu tor cyfraith yn ymwneud â phriodas neu bartneriaeth sifil ar y safle cymeradwy. Nid yw hyn yn destun adolygiad gan yr awdurdod.

**5.** Pan fydd cymeradwyaeth wedi'i dirymu, mae'n ofynnol i'r deiliad blaenorol, yn unol â'r rheoliadau, hysbysu unrhyw gyplau a oedd wedi trefnu i briodi neu gofrestru partneriaeth sifil ar y safle.

Adolygiadau

**6.** Gall ymgeisydd geisio adolygiad o'r penderfyniad gan yr awdurdod lleol i wrthod cymeradwyaeth, i gysylltu amodau lleol, i wrthod adnewyddu cymeradwyaeth neu i ddirymu cymeradwyaeth.

**7.** Rhaid i'r adolygiad gael ei gynnal gan swyddog, pwyllgor neu is-bwyllgor gwahanol i'r un a wnaeth y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn. Gall y panel adolygu gadarnhau'r penderfyniad, ei ddirymu neu ei amrywio drwy osod amodau newydd neu amodau pellach.

**8.** Gall yr awdurdod godi ffi ychwanegol am adolygiad o'r penderfyniad i wrthod cymeradwyaeth, i gysylltu amodau lleol neu i wrthod adnewyddu cymeradwyaeth.

Cofrestru

**9.** Cedwir manylion safleoedd cymeradwy gan yr awdurdod at ddiben eu harchwilio gan y cyhoedd, eu copïo'n lleol a'u hanfon at y Cofrestrydd Cyffredinol a fydd yn eu cyhoeddi.

**Cyngor Sir Penfro**

**Atodiad D**

**Canllawiau i'r rhai sy'n dymunio priodi**
**Y safle cymeradwy**

1. Cyn gynted ag y bydd cwpl wedi gwneud trefniadau dros dro ar gyfer eu priodas ar safle cymeradwy, dylid eu cynghori i gysylltu â Swyddfa Gofrestru Sir Benfro, Archifdy Sir Benfro, Prendergast, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 2PE. Ffoniwch 01437 775176 neu e-bostiwch ceremonies@pembrokeshire.gov.uk

2. Ni ellir cynnal priodas heb bresenoldeb y Cofrestrydd Arolygol a Chofrestrydd ac mae unrhyw drefniadau ar gyfer defnyddio'r safle yn dibynnu'n llwyr ar eu hargaeledd. Mae'n hanfodol felly bod y cwpl yn gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer eu presenoldeb yn eu priodas arfaethedig cyn gynted ag y gwneir trefniant. Bydd ffi yn daladwy am y presenoldeb hwn.

3. Bydd yn rhaid i'r cwpl hefyd gyflwyno rhybudd o briodas i Gofrestrydd Arolygol yr ardal (ardaloedd) lle maent yn byw. Rhaid rhoi'r rhybudd hwn yn bersonol gan y naill a'r llall ac mae'r rhybudd yn ddilys am ddeuddeg mis. Felly, dylai'r cwpl fynychu'r swyddfa gofrestru/swyddfeydd cofrestru lle maent yn byw cyn gynted ag y bo modd rhoi rhybudd. Mae cyfnod o aros o wyth diwrnod ar hugain ar ôl rhoi rhybudd cyn y gellir cynnal y briodas.

4. Os yw'r naill neu'r llall o'r cwpl yn destun rheolaeth fewnfudo, bydd gweithdrefnau pellach i'w dilyn cyn y gellir cyflwyno rhybudd o briodas. Gall y Cofrestrydd Arolygol lleol roi rhagor o gyngor ar y gweithdrefnau hyn.

5. Dylid rhybuddio'r cwpl bod unrhyw drefniadau a wneir i gynnal priodas ar y safle cymeradwy yn dibynnu ar y canlynol:

   (a) presenoldeb y Cofrestrydd Arolygol a chofrestrydd ar gyfer yr ardal lle mae'r safle wedi'i leoli; a,
   (b) bod y Cofrestrydd(wyr) Arolygol y cyflwynwyd rhybudd o briodas iddo/iddynt yn cyhoeddi amserlen ar gyfer priodas.

6. Dylid hysbysu'r cwpl mai seremoni sifil, nad yw'n grefyddol yn unig a ganiateir gan y Cofrestrydd Arolygol. Rhaid cytuno ar gynnwys y seremoni ymlaen llaw gyda'r Cofrestrydd Arolygol a fydd yn mynychu'r seremoni.

7. Mae unrhyw hawliau hawlfraint ar gyfer cerddoriaeth, darlleniadau ac ati a ganiateir yn y seremoni yn fater i'r cwpl a deiliad y gymeradwyaeth.

## Cyngor Sir Penfro

**Atodiad E**

## Canllawiau i’r rhai sy’n dymuno cofrestru partneriaeth sifil ar safleoedd cymeradwy

1. Cyn gynted ag y bydd cwpl wedi gwneud trefniadau dros dro ar gyfer eu partneriaeth sifil ar safle cymeradwy, dylid eu cynghori i gysylltu â Swyddfa Gofrestru Sir Benfro, Archifdy Sir Benfro, Prendergast, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 2PE. Ffoniwch 01437 775176 neu e-bostiwch ceremonies@pembrokeshire.gov.uk

2. Ni ellir cofrestru partneriaeth sifil heb bresenoldeb y Cofrestrydd Partneriaethau Sifil ac mae unrhyw drefniadau ar gyfer defnyddio’r safle yn dibynnu’n llwyr ar ei argaeledd. Felly, mae’n hanfodol bod y cwpl yn gwneud trefniadau ymlaen llaw gyda’r Cofrestrydd Partneriaethau Sifil er mwyn iddo fod yn bresennol yn eu digwyddiad cofrestru arfaethedig er mwyn sicrhau’r trefniant. Bydd ffi yn daladwy am y presenoldeb hwn.

3. Bydd rhaid i’r cwpl hefyd gyflwyno rhybudd o bartneriaeth sifil i berson awdurdodedig yr awdurdod cofrestru lle maent yn byw. Rhaid rhoi’r rhybudd hwn yn bersonol gan y naill a’r llall ac mae’r rhybudd yn ddilys am ddeuddeg mis. Felly, dylai’r cwpl fynychu’r swyddfa gofrestru/swyddfeydd cofrestru lle maent yn byw cyn gynted ag y bo modd rhoi rhybudd. Mae cyfnod aros o wyth diwrnod ar hugain ar ôl rhoi rhybudd cyn y gall y bartneriaeth sifil ddigwydd.

4. Os yw’r naill neu’r llall o’r cwpl yn destun rheolaeth fewnfudo, bydd gweithdrefnau pellach i’w cymryd cyn y gellir cyflwyno rhybudd o bartneriaeth sifil. Gall yr awdurdod cofrestru lleol roi rhagor o gyngor ar y gweithdrefnau hyn.

5. Dylid rhybuddio’r cwpl bod unrhyw drefniadau a wneir i bartneriaeth sifil ddigwydd ar y safle cymeradwy yn dibynnu ar y canlynol:

   (a) presenoldeb y Cofrestrydd Partneriaethau Sifil ar gyfer yr ardal lle mae’r safle wedi’i leoli; a,
   (b) cyhoeddi’r atodlen partneriaeth sifil gan yr awdurdod cofrestru ar gyfer yr ardal y mae’r safle wedi’i lleoli.

6. Dylid hysbysu’r cwpl mai dim ond digwyddiad cofrestru sifil, nad yw’n grefyddol y gall y Cofrestrydd Partneriaeth Sifil ei ganiatáu. Rhaid cytuno ar gynnwys unrhyw weithrediadau ymlaen llaw gyda’r Cofrestrydd Partneriaethau Sifil a fydd yn mynychu’r digwyddiad cofrestru.

7. Mae unrhyw hawliau hawlfraint ar gyfer cerddoriaeth, darlleniadau ac ati a ganiateir wrth gofrestru yn fater i’r cwpl a deiliad y gymeradwyaeth.